# Disgrifiad Swydd

| Cyfarwyddiaeth: | | Addysg | |
|---|---|---|---|
| Maes Gwasanaeth ac Adran: | | Cyflawniadau a Phartneriaethau – Tîm Gwella Ysgolion | |
| Rheolwr yr Uned: | | Prif Gynghorydd Gwella Ysgolion | |
| Teitl y swydd: | | Swyddog arweiniol – Cwricwlwm, dysgu ac addysgu | |
| Teulu'r Swydd a Phroffil y Rôl: | | Wedi'i ariannu gan grant – adolygir yn flynyddol | |
| Rhif y Swydd: | ED.73389 | Gradd | Soulbury 14 – 17 (ynghyd â 3 pwynt SPA) |

| Crynodeb o'r Rôl | |
|---|---|
| Yn atebol i'r: | Prif Gynghorydd Gwella Ysgolion |
| Diben y Swydd: | Arwain y gwaith ar y cwricwlwm, dysgu ac addysgu sy'n cyfrannu at wella ysgolion drwy sicrhau:<br>1. datblygu a chyflwyno strategaeth cymorth addysgu Abertawe;<br>2. brocera, datblygu a darparu dysgu proffesiynol i staff mewn ysgolion er mwyn bodloni gofynion Cwricwlwm Cymru (CfW);<br>3. nodi a rhannu arferion effeithiol ar draws yr awdurdod;<br>4. cefnogaeth i ysgolion fel sefydliadau dysgu;<br>5. datblygu diwylliant ymholi ymhlith ysgolion/lleoliadau;<br>6. gweithio gydag ysgolion i godi safonau mewn addysgu a dysgu a;<br>7. gweithio gyda chydweithwyr mewn unedau gwasanaeth addysg eraill, awdurdodau lleol eraill, partneriaid statudol a gwirfoddol i sicrhau bod dulliau effeithiol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth o addysgu a dysgu yn cael eu hyrwyddo. |
| Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am y canlynol: | • Darparu arweiniad strategol ar gyfer arbenigwyr perfformiad fel y cytunwyd â rheolwyr llinell;<br>• Sicrhaucymorth addysgu a dysgu o ansawdd uchel i ysgolion a lleoliadau;<br>• Trwy hunanwerthuso, cefnogi ysgolion i nodi eu hanghenion datblygu a gosod targedau priodol o welliant parhaus;<br>• Cefnogi ysgolion/lleoliadau i werthuso effaith eu dulliau o addysgu a dysgu;<br>• Nodi a rhannu arferion effeithiol ar draws ysgolion a'r rhanbarth;<br>• Nodi ysgolion/lleoliadau sydd angen cymorth ychwanegol, gwelliannau effeithiol ac ymyrryd yn ôl yr angen;<br>• Darparu arweiniad strategol ar gyfer datblygiadau ar draws yr awdurdod;<br>• Cynhyrchu adroddiadau a chynrychioli'r awdurdod lleol yn ôl yr angen; |

| | |
|---|---|
| | • Darparu cyngor a chefnogaeth addysgu a dysgu penodol i ysgolion wrth ddatblygu polisïau i hyrwyddo gwelliant;<br>• Cefnogi'r gwaith o ddylunio a datblygu ymweliadau cymorth ysgolion. Cynghori'r tîm gwella ysgolion (SIT) i gefnogi adrodd yn effeithiol.<br>• Gweithio gyda chydweithwyr mewn unedau gwasanaeth addysg eraill, awdurdodau lleol, partneriaid statudol a gwirfoddol i sicrhau dulliau effeithiol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth o wella addysgu a dysgu;<br>• Cefnogi'r gwaith o weithredu systemau effeithiol ar gyfer sicrhau ansawdd a gwerthuso gwaith yr awdurdod mewn perthynas â'i strategaeth cymorth addysgu<br>• Helpu i hyrwyddo pontio effeithiol rhwng lleoliadau sy'n cofleidio cwricwlwm 3-16 oed<br>• Cymryd y rôl flaenllaw wrth ddarparu arweiniad a chefnogaeth cwricwlwm i wasanaeth dysgwyr agored i niwed;<br>• Cefnogi strategaethau'r Gyfarwyddiaeth sy'n hyrwyddo canlyniadau gwell i ddysgwyr e.e. strategaeth ôl-16<br>• Cymryd y rôl flaenllaw wrth ddatblygu partneriaethau cydweithredol sy'n cefnogi gwelliannau mewn addysgu a dysgu;<br>• Cydlynu rhwydweithiau rhwng ysgolion, clystyrau/partneriaethau lleol, ardaloedd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. |
| **Amgylchiadau Gwaith y Swydd**<br><br>Bydd deiliad y swydd yn: | 1. Mae'n ofynnol teithio i leoliadau o fewn ffiniau Cyngor Abertawe a'r rhanbarth/partneriaeth<br>2. Disgwylir iddynt ddefnyddio technoleg ddigidol bob dydd yn eu Gwaith<br>3. Disgwylir gweithio mewn ffordd hyblyg ar draws tasgau a lleoliadau ar draws y Cyngor a'r rhanbarth/partneriaeth.<br>4. Gweithio yn unol â'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Gwella Addysg yng Nghymru, (neu'r ddogfen ddiweddaraf);<br>5. Mynychu cyfarfodydd lleol a rhanbarthol yn ôl cyfarwyddyd y rheolwr llinell;<br>6. Cyfrannu at ddatblygu amcanion a pholisïau ar gyfer cynlluniau gweithredol a busnes;<br>7. Cefnogi cyflawni amcanion adrannol a chorfforaethol;<br>8. Cynrychioli'r awdurdod lleol mewn fforymau a digwyddiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol fel y bo'n briodol;<br>9. Cefnogi a chyfrannu at weithio rhanbarthol;<br>10. Cysylltu ag asiantaethau mewnol ac allanol i wella darparu gwasanaethau a chyflawni nodau addysgol.<br>11. I weithio mewn ffordd wirioneddol broffesiynol yn unol â chod ymddygiad y Cyngor Gweithlu Addysg. |

# Manyleb Person

| Cyfarwyddiaeth: | | Addysg | |
|---|---|---|---|
| Maes Gwasanaeth ac Adran: | | Cyflawniadau a Phartneriaethau – Tîm Gwella Ysgolion | |
| Rheolwr yr Uned: | | Prif Gynghorydd Gwella Ysgolion | |
| Teitl y swydd: | | Swyddog arweiniol – Cwricwlwm, dysgu ac addysgu | |
| Teulu'r Swydd a Phroffil y Rôl: | | Wedi'i ariannu gan grant – adolygir yn flynyddol | |
| Rhif y Swydd: | ED.73389 | Gradd | Soulbury 14 – 17 (ynghyd â 3 pwynt SPA) |

| Maen Prawf y Rôl Rhif 1 | Addysg, Cymwysterau a Hyfforddiant |
|---|---|
| Hanfodol | Gradd gyntaf neu gymhwyster cyfatebol a chymhwyster addysgu e.e. TAR |
| Dymunol | Dysgu proffesiynol diweddar a pherthnasol sy'n ymwneud â gwella addysgu a dysgu |
| Tystiolaeth | Mae'r holl dystysgrifau i'w darparu yn y cyfweliad i'w dilysu. |
| **Maen Prawf y Rôl Rhif 2** | **Cymhwysedd Sgiliau /Technegol / Proffesiynol** |
| Hanfodol | 1. Rhaid i ymgeiswyr fod â lefel uchel o gymhwysedd technegol mewn perthynas â dylunio dulliau effeithiol o wella addysgu a dysgu<br>2. Lefel uchel o gymhwysedd mewn gwerthuso a chynllunio gwella ysgolion.<br>3. Hanes da o hyrwyddo a chyflawni newid llwyddiannus trwy amrywiaeth o brosiectau ysgol<br>4. Lefel uchel o gymhwysedd personol mewn perthynas â sgiliau cyflwyno<br>5. Byddwch yn athro dosbarth profedig, rhagorol. |
| Dymunol | Hyfforddwyd arolygydd cyfoedion Estyn |
| Tystiolaeth | Ardystiad a / neu gofrestriad dilys / DPP / cyfweliad / CV |
| **Maen Prawf y Rôl Rhif 3** | **Profiad** |
| Hanfodol | 1. Rolau uwch arweinyddiaeth ffurfiol o fewn ysgolion;<br>2. Track record of effective work as a system leader;<br>3. Profiad o sut i wella canlyniadau i ddysgwyr trwy addysgeg arloesol<br>4. Profiad o ddatblygu eraill yn broffesiynol;<br>5. Profiad o weithio gyda chydweithwyr eraill ar draws ysgolion ac ehangach e.e. Cyrff llywodraethu, gwaith clwstwr, rhieni, darparwyr allanol.<br>6. Hanes profedig o ddarparu cymorth llwyddiannus i ysgolion/lleoliadau e.e. cynlluniau cymorth/gwella strategol |
| Dymunol | 1. Profiad ar draws yr ystod oedran 3-18<br>2. Profiad dirprwy/pennaeth cynorthwyol |

| | |
|---|---|
| **Tystiolaeth** | Yn y cyfweliad, yna yn y swydd |
| **Maen Prawf y Rôl Rhif 4** | **Cymwyseddau a Galluoedd** |
| **Hanfodol** | 1. Bodloni'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth yng Nghymru. |
| **Dymunol** | |
| **Tystiolaeth** | Yn y cyfweliad, yna yn y swydd |
| **Maen Prawf y Rôl Rhif 5** | **Ymrwymiad i Gyfle Cyfartal** |
| **Hanfodol** | Bydd yr ymgeiswyr yn dangos bod pob gweithgaredd yn cael ei gynnal yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Pholisi a Gweithdrefnau Cyfle Cyfartal Cyngor Abertawe.<br>Rhaid i bob gweithiwr a rheolwr fod yn ymwybodol o'r Ddeddf Cydraddoldeb er mwyn gallu rhoi ystyriaeth iddi yn eu gwaith, lle bo hynny'n berthnasol, i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth. |
| **Dymunol** | |
| **Tystiolaeth** | Mewn cyfweliad, ac yna yn y swydd. |
| **Maen Prawf y Rôl Rhif 6** | **Trwydded Yrru Gyfredol** |
| **Hanfodol** | Defnydd o’ch car eich hun:<br>Os oes gan ddeiliad y swydd anabledd a/neu os nad yw’n gallu gyrru, yna gall ddefnyddio cludiant/cymorth arall a bydd rhaid i hynny fod yn ffordd effeithiol a chost-effeithiol o deithio. |
| **Dymunol** | |
| **Tystiolaeth** | Tystiolaeth i’w dangos yn flynyddol fod gan ddeiliad y swydd yswiriant priodol at ddibenion busnes |
| **Maen Prawf y Rôl Rhif 7** | **Gofynion Gorfodol ar gyfer Cyflwyno Newid a Ffyrdd Newydd o Weithio** |
| **Hanfodol** | 1. Dangos ymrwymiad i ffyrdd newydd y Cyngor o weithio, gan ddarparu amgylchedd cadarnhaol a chefnogol sy'n galluogi arferion gweithio arloesol a chynaliadwy sy'n darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i'n dinasyddion.<br>2. Croesawu newid drwy gymryd rhan weithredol a hyblyg yn y newid hwnnw ac addasu i ffyrdd newydd o weithio gyda'n dinasyddion, fel y cytunwyd drwy ymgynghori'n ffurfiol ag Undebau Llafur a Pholisïau a Gweithdrefnau Adnoddau Dynol. |
| **Dymunol** | |
| **Tystiolaeth** | Mewn cyfweliad, ac yna yn y swydd. |
| **Maen Prawf y Rôl Rhif 8** | **Gofynion eraill** |
| **Hanfodol** | Y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg. |
| **Dymunol** | |
| **Tystiolaeth** | |
| | |
| **Arolygu a Monitro Iechyd:** | Bydd angen i ddeiliad y swydd gymryd rhan mewn gweithdrefnau arolygu a monitro iechyd. |
| | |

| | |
|---|---|
| **Diogelu:** | Mae'r Awdurdod yn unol â'r Polisi Diogelu Corfforaethol wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion ac yn disgwyl i'r holl staff a gwirfoddolwyr rannu'r ymrwymiad hwn. Mae'r Awdurdod yn disgwyl i'r holl staff ymgymryd â hyfforddiant diogelu gorfodol ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion a chael y wybodaeth ddiweddaraf amdano. |

<table>
<tr><th colspan="4">Y Gymraeg</th></tr>
<tr><td colspan="4">Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth Cymraeg sydd o’r un ansawdd â'r Saesneg a bydd yn cefnogi'r staff i ddarparu hyn.</td></tr>
<tr><th colspan="4">Asesu Swyddi</th></tr>
<tr><td colspan="4">Mae'n rhaid asesu pob swydd o ran y gofynion Cymraeg. Mae'n rhaid cadw'r dystiolaeth hon a sicrhau ei bod ar gael ar gyfer (a) llwybr archwilio a (b) ei chynnwys mewn ffigurau adroddiad blynyddol.</td></tr>
<tr><th colspan="4">Gofynion ar gyfer y swydd hon<br>(Gweler yr Asesiad Sgiliau Iaith sydd ynghlwm)</th></tr>
<tr><td>Deall</td><td>Lefel: 1</td><td>Siarad</td><td>Lefel: 1</td></tr>
<tr><td>Darllen</td><td>Lefel: 1</td><td>Ysgrifennu</td><td>Lefel: 1</td></tr>
<tr><th colspan="4">Yn seiliedig ar yr uchod, mae'r gofyniad am y swydd hon fel a ganlyn:</th></tr>
<tr><td>Hanfodol</td><td></td><td>Dymunol</td><td>x</td></tr>
<tr><td>I’w dysgu</td><td></td><td>Ddim yn ofynnol</td><td></td></tr>
</table>

<table>
<tr><td rowspan="3">Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG):</td><th colspan="3">Mae'n ofynnol i ddeiliaid y swydd hon gael gwiriad GDG fel y nodir isod:</th></tr>
<tr><th>Cais am GDG Safonol</th><th>Cais am Ddatgegiad GDG Manwl</th><th>Dim Cais am Ddatgeliad GDG</th></tr>
<tr><td></td><td>x</td><td></td></tr>
</table>

<table>
<tr><td>Adolygu/<br>Hawl i amrywio:</td><td colspan="3">Y Fanyleb sy'n berthnasol ar hyn o bryd a chaiff ei hadolygu'n rheolaidd yn ôl y Polisi Adolygu Rheoli Perfformiad Gweithwyr a'r broses Adolygu ac Arfarnu Datblygu Perfformiad. Gall Manyleb y Swydd a’r Fanyleb Person fod yn destun Amrywiant pellach o fewn cylch gwaith Proffil y Rôl.</td></tr>
<tr><th colspan="4">Cymeradwyaeth</th></tr>
<tr><td>Rheolwr Llinell:</td><td></td><td>Dyddiad:</td><td></td></tr>
<tr><td>Deiliad y Swydd:</td><td></td><td>Dyddiad:</td><td></td></tr>
</table>

**Fframwaith Sgiliau Iaith Gymraeg**

| Lefel 0 | | | |
|---|---|---|---|
| Dim gofyniad iaith Gymraeg wedi ei nodi ar gyfer y swydd – ond dylai pawb sy’n cael ei recriwtio fod yn ymwybodol o ofynion corfforaethol Safonau’r Gymraeg a chynghorir eu bod yn cwblhau'r cwrs ymwybyddiaeth o'r Gymraeg | | | |
| **Deall** | **Siarad** | **Darllen** | **Ysgrifennu** |
| ➢ Dim gofyniad iaith Gymraeg wedi’i nodi | ➢ Dim gofyniad iaith Gymraeg wedi’i nodi | ➢ Dim gofyniad iaith Gymraeg wedi’i nodi | ➢ Dim gofyniad iaith Gymraeg wedi’i nodi |
| **Lefel 1** | | | |
| Gallu deall ymadroddion pob dydd sylfaenol os bydd y siaradwr yn siarad yn araf ac yn glir ac yn barod i helpu. Gallu cyflwyno eich hun ac eraill ac yn gallu gofyn ac ateb cwestiynau ynghylch y wybodaeth sylfaenol, e.e. lle mae rhywun yn byw; beth maent yn hoffi ei wneud. Gallu trosglwyddo neges syml neu wneud cais syml, e.e. drwy’r ebost | | | |
| **Deall** | **Siarad** | **Darllen** | **Ysgrifennu** |
| ➢ Gallu deall manylion gwybodaeth bersonol syml; e.e. ble maerhywun yn byw, ei (h)enw, pwy ymae'r person yn dymuno ei weld | ➢ Gallu ynganu enwau lleoedd ac enwau personol yn gywir.<br>➢ Gallu cyfarch unigolion wyneb yn wyneb neu dros y ffôn<br>➢ Gallu cychwyn a chloi sgwrs neu agor cyfarfod a chloi cyfarfod. | ➢ Gallu darllen brawddeg fer, e.e. arwyddion sylfaenol, cyfarwyddiadau syml, eitemau agenda, gwybodaeth syml am ffurflenni | ➢ Gallu dechrau a gorffen e-bost neu lythyr<br>➢ Gallu ysgrifennu enwau personol, enwau lleoedd, teitlau swyddi<br>➢ Gallu ysgrifennu neges syml at gydweithiwr ar bapur neu ar e-bost, e.e. bod hwn a hwn wedi galw. |
| **Lefel 2** | | | |
| Gallu deall brawddegau pan fydd pobl yn sôn am sefyllfaoedd pob dydd, e.e. gwybodaeth bersonol a theuluol syml. Gallu cynnal sgwrs sylfaenol â rhywun i gael neu gyfnewid gwybodaeth syml, e.e. trafod sut mae'r person yn teimlo; rhywbeth sydd wedi digwydd; cynllun syml ar gyfer y dyfodol. Gallu ysgrifennu a darllen y negeseuon mewn llythyrau neu negeseuon e-bost sy'n disgrifio materion cyfarwydd ac ysgrifennu mewn brawddegau byr | | | |
| **Deall** | **Siarad** | **Darllen** | **Ysgrifennu** |
| ➢ Gallu deall pan fydd pobl yn siarad yn araf am sefyllfaoedd bob dydd, e.e. darparu gwybodaeth bersonol, sôn am yr hyn y maent wedi bod yn ei wneud, yr hyn yr hoffent ei wneud, sut y maent yn teimlo'n gyffredinol | ➢ Gallu cyfleu gwybodaeth syml neu ofyn cwestiynau cyffredin, e.e. i gael gwybodaeth gan unigolyn<br>➢ Gallu defnyddio'r Gymraeg i gyrraedd a phwysleisio gyda'r unigolyn ond ddim yn gallu cynnal y sgwrs neu sesiwn gyfan yn Gymraeg | ➢ Gallu darllen neges fer a rhai llythyrau neu negeseuon e-bost, e.e. rhai sy'n gwneud cais neu sy’n gofyn i chi drosglwyddo neges | ➢ Gallu ysgrifennu neges fer at gydweithiwr yn gofyn cwestiwn, yn diolch iddo/iddi, yn egluro rhywbeth, e.e. amser a man cyfarfod<br>➢ Gallu ysgrifennu llythyr neu e-bost byr i drefnu apwyntiad |

<table>
<tr><td>➢ Gallu deall pan mae pobl yn gofyn i chi wneud rhywbeth</td><td>➢ Gallu cynnal sgwrs fer gydag unigolyn neu gyfnewid gwybodaeth gymharol syml<br>➢ Gallu cyfrannu at gyfarfod, ond angen troi i'r Saesneg ar gyfer dermau arbenigol.</td><td></td><td></td></tr>
<tr><th colspan="4">Lefel 3</th></tr>
<tr><td colspan="4">Gallu deall y prif bwyntiau pan fydd unigolyn neu gydweithiwr yn sôn am bynciau cyfarwydd, e.e. yn ystod cyfarfod grŵp bach neu sgwrs. Gallu cynnal sgyrsiau estynedig â siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd sy'n ymwneud â gwaith pob dydd. Gallu disgrifio profiadau a digwyddiadau a rhoi esboniadau cryno a rhesymau dros safbwyntiau a chynlluniau. Gallu darllen erthyglau, llythyrau neu negeseuon e-bost am bynciau cyffredinol. Gallu ysgrifennu llythyrau neu negeseuon e-bost am y rhan fwyaf o bynciau, e.e. gofyn am rywbeth; darparu gwybodaeth; gwahodd rhywun neu drefnu digwyddiad.</td></tr>
<tr><th>Deall</th><th>Siarad</th><th>Darllen</th><th>Ysgrifennu</th></tr>
<tr><td>➢ Gallu deall unigolion a chydweithwyr wrth gyfnewid gwybodaeth neu drafod cynlluniau, os yw'r pwnc yn gyfarwydd.<br>➢ Gallu deall trafodaeth mewn cyfarfod os yw'r pwnc yn gyfarwydd.<br>➢ Gallu deall unigolion a chydweithwyr mewn sefyllfa gyfarwydd neu mewn sgwrs pob dydd.</td><td>➢ Gallu cymryd rhan yn y rhan fwyaf o sgyrsiau â chydweithwyr ynghylch gwaith a chynlluniau os nad yw'r eirfa’n rhy dechnegol.<br>➢ Gallu cynnal sgwrs ag unigolyn neu gyfnewid gwybodaeth gymharol syml.<br>➢ Gallu cyfrannu at gyfarfod ond angen troi at y Saesneg ar gyfer termau arbenigol.<br>➢ Gallu addasu arddull iaith i weddu i'r gynulleidfa.</td><td>➢ Gallu deall y rhan fwyaf o negeseuon e-bost neu lythyrau ynghylch gwaith o ddydd i ddydd.<br>➢ Gallu dyfalu ystyr gair ar sail y cyd-destun os yw'r pwnc yn gyfarwydd.<br>➢ Gallu darllen erthygl syml mewn papur newydd neu fathau o ddeunydd ysgrifenedig tebyg i gylchgrawn.</td><td>➢ Gallu sgrifennu llythyr neu e-bost at unigolyn, neu gydweithiwr am y rhan fwyaf o bynciau er mwyn gofyn am rywbeth; rhoi esboniad; disgrifio profiad neu sefyllfa; gwahodd pobl neu drefnu digwyddiad.<br>➢ Gallu ysgrifennu’n gymharol gywir wrth ddrafftio taflen wybodaeth fer yn Gymraeg yn ôl y gofyn.</td></tr>
<tr><th colspan="4">Lefel 4</th></tr>
<tr><td colspan="4">Gallu dilyn y rhan fwyaf o sgyrsiau neu drafodaethau fel arfer, hyd yn oed ar destunau anghyfarwydd, oni bai fod gan y siaradwr acen gref neu anghyfarwydd. Gallu siarad yn hyderus â siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd sy'n ymwneud â’r gwaith, a mynegi barn, cymryd rhan mewn trafodaeth, a siarad yn helaeth am bynciau cyffredinol, e.e. mewn cyfarfodydd neu sefyllfaoedd un-i-un gydag unigolion. Gallu deall y rhan fwyaf o ohebiaeth, erthyglau papur newydd ac adroddiadau a fwriedir ar gyfer siaradwyr rhugl gyda chymorth geiriadur a gallu bwrw golwg trwy destunau hir i ddod o hyd i fanylion. Gallu llenwi ffurflenni ac ysgrifennu adroddiadau sy'n ymwneud â’r gwaith ac ymateb yn gywir iddynt.</td></tr>
<tr><th>Deall</th><th>Siarad</th><th>Darllen</th><th>Ysgrifennu</th></tr>
<tr><td>➢ Gallu dilyn y rhan fwyaf o sgyrsiau a thrafodaethau â chydweithwyr neu unigolion hyd</td><td>➢ Gallu cyfrannu'n effeithiol at gyfarfodydd mewnol ac allanol mewn cyd-destun gwaith.</td><td>➢ Gallu darllen y rhan fwyaf o'r ohebiaeth a sganio i ddod o hyd i fanylion.</td><td>➢ Gallu llunio gohebiaeth o bob math, adroddiadau byr, dogfennau a llenyddiaeth gyda</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| yn oed os yw'r pwnc yn anghyfarwydd.<br>➢ Gallu deall gwahaniaethau mewn acen a thafodiaith. | ➢ Gallu trafod yn rhwydd ag unigolion a chyfnewid gwybodaeth yn ôl y gofyn.<br>➢ Gallu dadlau dros ac yn erbyn achos penodol.<br>➢ Gallu cadeirio cyfarfodydd acateb cwestiynau gan y Cadeiryddyn hyderus. | ➢ Gallu deall y rhan fwyaf o erthyglau papur newydd ac adroddiadau gyda chymorth geiriadur.<br>➢ Gallu deall nofelau a thestunau eraill, oni bai eu bod wedi eu hysgrifennu ar ffurf lafar neu ffurfiol iawn. | chefnogaeth golygydd neu gymorth electronig. |
| **Lefel 5** | | | |
| Gallu deall popeth sy'n cael ei ddweud. Gallu siarad yn helaeth am faterion cymhleth, gan gyflwyno gwybodaeth anodd ac yn gallu hwyluso a chrynhoi trafodaethau estynedig neu gymhleth. Gallu crynhoi gwybodaeth o wahanol ffynonellau (ar lafar ac yn ysgrifenedig) a'i chyflwyno mewn ffordd gydlynol. Gallu mynegi ei hun yn ddigymell, yn rhugl ac yn fanwl, gan addasu'r iaith i weddu'r gynulleidfa. | | | |
| **Deall** | **Siarad** | **Darllen** | **Ysgrifennu** |
| ➢ Gallu dilyn pob sgwrs a thrafodaeth gydag unigolion neu gydweithwyr.<br>➢ Gallu deall amwysedd a chywair iaith. | ➢ Gallu mynegi ei hun yn llawn ac yn fanwl, hyd yn oed wrth drafod materion cymhleth.<br>➢ Gallu addasu arddull a chywair eich iaith i weddu'r gynulleidfa. | ➢ Gallu darllen a deall bron pob testun ysgrifenedig yn ddi-drafferth, gan ddefnyddio geiriadur yn achlysurol.<br>➢ Gallu darllen testunau hir i ddod o hyd i fanylion perthnasol a gallu deall y rhan fwyaf o fathau o ddeunydd ysgrifenedig. | ➢ Galu ysgrifennu adroddiadau mewn arddull glir sy'n addas i'r darllenydd gyda chymorth cymhorthion iaith electronig.<br>➢ Gallu ysgrifennu Cymraeg ffurfiol neu anffurfiol yn ôl y gofyn.<br>➢ Gallu ysgrifennu ystod o ddogfennau yn gywir ac yn hyderus. |

# Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG)
# Gwiriadau Datgelu

Sefydlwyd y GDG o dan Ran V o Ddeddf yr Heddlu 1997 a chafodd ei lansio ym mis Mawrth 2002.

Mae'r GDG yn galluogi sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel trwy nodi ymgeiswyr a allai fod yn anaddas ar gyfer gwaith penodol, yn enwedig gwaith sy'n ymwneud â phlant neu oedolion bregus.

Gall y GDG roi 5 lefel o Dystysgrifau Datgelu, yn dibynnu ar y swydd y gwneir cais amdani, sef Safonol, Manwl, Manwl gyda gwiriad ADA (plant), Manwl gyda gwiriad ADA (oedolion) a Manwl gyda gwiriad ADA (plant ac oedolion)

Dylai darpar ymgeiswyr fod yn ymwybodol y bydd yn rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus lenwi cais ar-lein am y datgeliad priodol cyn i'r cynnig o swydd gael ei gadarnhau. Hefyd, bydd angen prawf o hunaniaeth yr ymgeisydd llwyddiannus ar ffurf y canlynol: Pasbort, Trwydded Yrru, Tystysgrif Geni a Biliau Cyfleustodau.

Mae'r awdurdod yn mynd ati i hyrwyddo cyfle cyfartal i'r holl weithwyr presennol a darpar ymgeiswyr. Dewisir ymgeiswyr ar sail sgiliau, cymwysterau a phrofiad, ac i'r graddau y maent yn cydweddu â'r fanyleb person. Ni fydd cofnod troseddol o reidrwydd yn gwahardd ymgeiswyr rhag gweithio gyda'r Awdurdod. Bydd yn dibynnu ar natur y swydd ac amgylchiadau a chyd-destun y drosedd.

Mae gan yr Awdurdod bolisi ysgrifenedig ynghylch Recriwtio Cyn-droseddwyr, sy'n cydymffurfio â Chod Ymarfer y GDG, ac mae'n addo trin pob ymgeisydd yn deg.

Mae'r wybodaeth ganlynol ar gael gan y Ddesg Gymorth Ganolfan Gweithwyr, Ystafell 153, Neuadd y Ddinas, ABERTAWE SA1 4PE; Ffôn 01792 636098, e-bost servicecentrehelpdesk@swansea.gov.uk.

- Cod Ymarfer y GDG;
- Polisi'r Awdurdod ar Ddiogelwch Gwybodaeth Gyfrinachol o Ddatgeliadau;
- Gwybodaeth ynghylch Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974

Ceir rhagor o wybodaeth am y Cynllun Datgelu trwy droi at www.homeoffice.gov.uk/agencies-public-bodies/dbs/.

# Cynllun Corfforaethol

Sicrhau Abertawe lwyddiannus a chynaliadwy

## Ein huchelgeisiau a'n hymrwymiadau i drigolion – ein hamcanion llesiant

Rydym wedi blaenoriaethu chwe amcan llesiant, sef:

- **Diogelu pobl rhag niwed**- er mwyn sicrhau bod ein dinasyddion yn ddiogel rhag niwed a chamfanteisio
- **Gwella Addysg a Sgiliau** - fel bod pob plentyn a pherson ifanc yn Abertawe yn ennill y sgiliau a'r cymwysterau y mae eu hangen arnynt i lwyddo mewn bywyd
- Trawsnewid ein **Heconomi a'n Hisadeiledd** - fel bod gan Abertawe ganol dinas defnydd cymysg, ffyniannus ac economi leol a fydd yn cefnogi ffyniant ein dinasyddion
- **Trechu Tlodi -** fel bod pob person yn Abertawe'n gallu cyflawni ei botensial
- Cyflawni ar **Adfer Natur a Newid yn yr Hinsawdd** - fel ein bod yn cynnal ac yn gwella natur a bioamrywiaeth yn Abertawe, yn lleihau ein hôl-troed carbon ac yn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.
- **Trawsnewid a Datblygu Cyngor yn y Dyfodol**- fel ein bod ni a'r gwasanaethau rydym yn eu darparu'n gynaliadwy ac yn addas i'r dyfodol.

### Ein Gwerthoedd

Bydd ein cynlluniau'n cael eu hadeiladu ar dri nod clir a fydd yn llywio'r ffordd rydyn ni'n gweithio, sut rydyn ni'n datblygu fel sefydliad a'n penderfyniadau dros y blynyddoedd i ddod.

- **Ffocws ar Bobl**
  Byddwn yn canolbwyntio ar anghenion a chanlyniadau cymunedau ac ar wella bywydau'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn Abertawe. Byddwn hefyd yn parchu, yn gwerthfawrogi ac yn cefnogi ein gweithwyr ac yn dangos y safonau uchaf o gywirdeb.

- **Gweithio gyda’n Gilydd**
  Byddwn yn hyrwyddo ymagwedd partneriaeth gyfan, gan weithio ar draws gwasanaethau i fwyafu adnoddau a gwybodaeth a byddwn yn gweithio gydag eraill y tu allan i’r Cyngor i sicrhau ein bod yn blaenoriaethu ein hadnoddau er mwyn cael ygwasanaethau gorau ar gyfer ein cymunedau.

- **Arloesedd**
  Byddwn yn hyrwyddo ac yn cefnogi diwylliant blaengar. Byddwn yn meddwl ac yn gweithio’n wahanol i wella ein gallu i gyflawni ac ymdopi â’r heriau ariannol, demograffig a chymdeithasol rydym yn eu hwynebu. Byddwn yn rhannu’r hyn a ddysgwn ar draws y Cyngor, fel rhan o'n Rhaglen Arloesi.